# Y PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A PHLANT
## 17 MEHEFIN 2016

**Yn bresennol:** **Y Cynghorydd J.E. Williams (Cadeirydd)**

**Cynghorwyr:** **D.J.R. Bartlett, C.A. Campbell, J.M. Charles, I.W. Davies, W.G. Hopkins, P. Hughes-Griffiths, J.D. James, M.J.A. Lewis, D.W.H. Richards, T. Theophilus**

**Mrs. V. Kenny – Cynrychiolydd o'r Eglwys Gatholig Rufeinig**
**Mrs. E. Heyes – Rhiant-lywodraethwyr (Ardal Llanelli)**
**Mrs. K. Hill – Rhiant-lywodraethwyr (Ardal Dinefwr)**
**Mrs. A. Pickles – Rhiant-lywodraethwyr (Ardal Caerfyrddin)**

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**

Mr. R. Sully – Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Phlant
Mr. A. Rees – Pennaeth Rhaglenni Dysgwyr
Mr. S. Smith – Pennaeth y Gwasanaethau Plant
Mr. D. Astins – Rheolwr Datblygu Strategol
Mr. S. Davies – Rheolwr Moderneiddio Ysgolion
Mrs. C. Griffiths – Ymgynghorydd Her (â chyfrifoldeb am Gymraeg)
Mr. R. James – Swyddog Busnes a Chynllunio Perfformiad *(ar gyfer Eitemau 10 ac 11)*
Mr. M. Morden – Rheolwr Trawsnewid Dysgu
Ms. S. Nolan – Cyfrifydd y Grŵp *(ar gyfer Eitem 7)*
Mr. M. Hughes – Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Lleoliad:** Siambr Neuadd y Sir, Caerfyrddin (10:10yb – 12:15yp)

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr P.E.M. Jones a J. Williams yn ogystal â'r Canon B. Witt. Derbyniwyd ymddiheuriadau hefyd gan y Cynghorydd G.O. Jones (yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant).

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

| Cynghorydd | Eitem(au) yn y Cofnodion | Natur y Buddiant |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd P. Hughes-Griffiths | Eitem 9 | Mae'n llywodraethwr yn Ysgol Bro Myrddin. Hysbysodd y Pwyllgor, er y gallai gymryd rhan a phleidleisio, na fyddai'n cyfrannu i'r trafodaethau tra bo'r eitem hon yn cael ei hystyried. |

## 3. DATGAN CHWIPIAID PLAID SYDD WEDI EU GWAHARDD

Ni chafwyd unrhyw ddatganiad ynghylch chwip waharddedig.

## 4. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

## 5. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL

**PENDERFYNODD Y PWYLLGOR YN UNFRYDOL** y byddai'r eitemau i'w hystyried yn ei gyfarfod nesaf, sydd wedi'i amserlennu ar gyfer dydd Iau 22 Medi 2016, yn cael eu nodi.

## 6. Y DIWEDDARAF AM Y RHWYDWAITH DYSGU 11-19

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i adroddiad a oedd yn nodi canfyddiadau'r Adolygiad o'r Cwricwlwm 11-19 yn Sir Gaerfyrddin. Hysbyswyd yr Aelodau fod yr Awdurdod Lleol a Choleg Sir Gâr wedi comisiynu'r adolygiad ar y cyd gan fod y ddau sefydliad o'r farn bod angen dull strategol cyffredin o ddarparu addysg a hyfforddiant 11-19 yn Sir Gaerfyrddin yn y dyfodol. Roedd yr argymhellion yn yr adroddiad yn nodi'r camau gweithredu a oedd yn ofynnol i weithredu'r cwricwlwm newydd a sicrhau bod pobl ifanc yn cael addysg dda ac yn cael eu paratoi'n addas ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu bywydau.

Trafodwyd y materion canlynol wrth ystyried yr adroddiad:

Cyfeiriwyd at Adroddiad Blynyddol ESTYN yn 2015 a oedd yn amlygu rôl ysgolion, colegau ac awdurdodau lleol o ran cydweithio i ddatblygu cwricwlwm sy'n berthnasol i ddysgwyr a sectorau allweddol yr economi leol a gofynnwyd hefyd beth oedd y raddfa amser debygol ar gyfer y cydweithio hwn. Rhoddodd y Cyfarwyddwr wybod i'r Pwyllgor hefyd y rhagwelir y byddai'r trefniadau hyn yn weithredol erbyn 2021, gan gyd-daro â'r broses o gyflwyno'r cwricwlwm cenedlaethol newydd.

Awgrymwyd hefyd fod llawer o ysgolion uwchradd yn teimlo'n bryderus ynghylch colli disgyblion i Goleg Sir Gâr a gofynnwyd sut y gellid rhoi'r cynigion hyn ar waith heb greu cystadleuaeth rhwng darparwyr ac a fyddai'r cyrsiau a gynigir gan y Coleg ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg? Rhoddodd y Rheolwr Trawsnewid Dysgu wybod i'r Pwyllgor fod yr Awdurdod Lleol a Choleg Sir Gâr yn gweld addysg ôl-16 yn Sir Gaerfyrddin fel darpariaeth economi-gymysg. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor hefyd fod colegau addysg bellach dan fwy o bwysau gan Lywodraeth Cymru i ddarparu mwy o gyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg a bod Coleg Sir Gâr yn gweithio tuag at hyn. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant mai nod yr adolygiad hwn a'r argymhellion a oedd yn deillio ohono oedd cael gwared ar unrhyw ymdeimlad o gystadleuaeth rhwng darparwyr a sicrhau bod pobl ifanc yn cael cynnig y ddarpariaeth orau. Roedd yn cydnabod pryderon dilys ysgolion ond pwysleisiodd fod perthynas ardderchog yn bodoli rhwng yr Awdurdod a Choleg Sir Gâr o ran darpariaeth ôl-16. Fodd bynnag, dywedodd na fyddai'r un

coleg nac ysgol uwchradd yn gallu cynnig pob pwnc posibl neu gyfuniad posibl o bynciau yn y dyfodol a'i bod felly'n hanfodol bod sefydliadau'n gweithio mewn partneriaeth.

Roedd yr Aelodau'n croesawu'r adroddiad a'r cyd-destun ac er bod y rhestr o'r holl strategaethau perthnasol, yn rhai blaenorol a phresennol, yn cael ei gwerthfawrogi hefyd, roedd teimlad y byddai cynnwys mwy o ddata ynghylch cyrchfannau pobl ifanc ar ôl addysg lawn-amser orfodol wedi bod o fudd (e.e. y rhai sy'n mynd ymlaen i'r brifysgol, colegau addysg bellach neu'r rhai sy'n dod yn bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET)). Dywedodd y Rheolwr Trawsnewid Dysgu ei fod yn croesawu'r sylwadau a bod data o'r fath ar gael yn rhwydd, ac y byddai'n hapus i gyflwyno gwybodaeth o'r fath i'r Aelodau mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Mynegwyd siom, er ei fod yn pwysleisio pwysigrwydd materion economaidd a chymdeithasol, nad oedd sylwadau na ffocws clir ar y Gymraeg yn yr adroddiad ac nad oedd cyfeiriad at yr iaith mewn unrhyw un o'r argymhellion. Rhoddodd y Pennaeth Rhaglenni Dysgwyr sicrwydd i'r pwyllgor bod y Gymraeg yn ystyriaeth flaenllaw iawn yn y gwaith hwn a'i bod wedi cael lle amlwg yn y cyd-destun polisi cyffredinol ar gyfer yr adolygiad hwn. O safbwynt cenedlaethol, nododd fod un o wyth 'conglfaen' Donaldson yn cynnwys rhoi lle teilwng i'r Gymraeg o fewn y cwricwlwm ac, ar lefel leol, fod Partneriaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg 14-19 y Sir yn hyrwyddo ac yn cefnogi'r iaith yn y sector addysg. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor hefyd fod gan Goleg Sir Gâr bellach swyddog datblygu'r Gymraeg a oedd yn gweithio'n frwd gyda'r Coleg i hybu defnydd o'r iaith. Cyfeiriodd y Pennaeth Rhaglenni Dysgwyr hefyd at argymhelliad 10 yn yr adroddiad a oedd yn cynnig bod yr Awdurdod Lleol, Coleg Sir Gâr a'r bartneriaeth ddysgu ehangach yn 'gweithredu rhaglen o ddysgu cyfunol ac e-ddysgu i ddarparu'r cwricwlwm 16-19 mewn pynciau Uwch Gyfrannol a Safon Uwch nad oes llawer o ddysgwyr yn eu dewis yn Gymraeg ac yn Saesneg (o fis Medi 2017)'. Eglurodd fod gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu pecyn dysgu hyblyg a allai alluogi disgyblion i ddilyn cwrs penodol trwy gyfrwng y Gymraeg, hyd yn oed os mai ychydig o alw oedd amdano o safbwynt niferoedd. Gellid gwneud hyn mewn partneriaeth gyda darparwyr eraill a chan ddefnyddio technoleg ar-lein er enghraifft. Ychwanegodd y Rheolwr Trawsnewid Dysgu y gellid diwygio'r adroddiad yng ngoleuni sylwadau'r Pwyllgor.

Gofynnwyd sut yr oedd disgwyl i ysgolion gadw golwg ar yr holl wahanol strategaethau (fel a nodir yn yr adroddiad) a sicrhau eu bod yn ateb y gwahanol ofynion a osodir arnynt gan Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol, yn enwedig gan fod y cwricwlwm yn cael ei newid a'i ddiwygio'n gyson. Roedd y Rheolwr Trawsnewid Dysgu yn cydnabod bod hwn yn bwynt dilys a'i fod yn amlygu rôl allweddol yr Awdurdod o ran cynorthwyo a chefnogi ysgolion i weithredu'r holl strategaethau hyn. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant fod cryn rwystredigaeth wedi bod yn y gorffennol gan fod ysgolion yn aml wedi bod yn gweithredu ar wahân. Fodd bynnag, roedd y cwricwlwm newydd yn cynnig cyfle i greu cyfundrefn addysg gydlynol ar gyfer yr holl ysgolion ond roedd mewnbwn gan yr ysgolion eu hunain yn elfen allweddol o ddatblygu'r broses hon.

Gofynnwyd am eglurhad o rôl Dinas-ranbarth Bae Abertawe a pha gydweithio oedd yn digwydd gyda phartneriaid eraill. Dywedodd y Rheolwr Trawsnewid Dysgu, ar lefel leol, fod swyddogion yn yr Adran Addysg a Gwasanaethau Plant yn cydweithio'n agos gyda chydweithwyr yn yr Is-adran Adfywio a Pholisi ar faterion megis cynlluniau Byd Gwaith / gyrfaoedd. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Addysg a

Gwasanaethau Plant fod yr Awdurdod yn gweithio ar sail ranbarthol a chydnabu fod Dinas-ranbarth Bae Abertawe yn dod yn fwyfwy pwysig wrth iddo geisio ysgogi a diffinio economi'r ardal gyfan. Roedd yn bwysig bod yr Awdurdod yn ymwybodol o'r mathau o sgiliau y byddai ar yr economi ranbarthol eu hangen yn y dyfodol a bod plant a phobl ifanc yn cael eu paratoi ar gyfer swyddi'r dyfodol. Ychwanegodd fod hon yn rôl allweddol i'r Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol, un o is-grwpiau'r Dinas-Ranbarth.

Mewn ymateb i gwestiwn am gyllid ar gyfer ysgolion, rhoddodd y Rheolwr Trawsnewid Dysgu wybod i'r Pwyllgor bod Llywodraeth Cymru, ym mis Medi 2014, wedi gweithredu system cynllunio a chyllido newydd ar gyfer addysg ôl-16 yn y chweched dosbarth mewn ysgolion. Roedd y system newydd yn cysoni dyraniadau cyllid ar gyfer y chweched dosbarth mewn ysgolion â'r trefniadau ar gyfer Colegau Addysg Bellach a Dysgu Seiliedig ar Waith. O fis Medi 2016, fodd bynnag, roedd Llywodraeth Cymru bellach yn cynnig y byddai cyllid yn seiliedig ar raglenni dysgu yn hytrach na chymwysterau, gyda diben diffiniedig ar gyfer pob rhaglen ynghyd â chanlyniad y gellir ei ddefnyddio i fonitro'r rhaglen. Roedd hyn bellach yn golygu ei bod yn ofynnol i'r Awdurdod Lleol flaengynllunio yn ogystal â chydgysylltu'r broses o gyflwyno darpariaeth chweched dosbarth, sicrhau bod camau'n cael eu cymryd i osgoi dyblygu darpariaeth a bod cyrsiau a ddarperir yn cyflawni blaenoriaethau economaidd lleol a rhanbarthol. Roedd swyddogion wedi bod yn gwneud gwaith paratoi gydag ysgolion uwchradd i baratoi ar gyfer y system gyllido newydd. Rhoddodd wybod i'r Pwyllgor bod yr Awdurdod, yn ystod y cyfnod pontio, yn defnyddio model cyllido sy'n seiliedig ar niferoedd disgyblion a chodiadau yn y cyllid ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg, ardaloedd tenau eu poblogaeth ac ardaloedd gwledig, ffactorau a oedd wedi cael eu cytuno gyda phenaethiaid yr ysgolion uwchradd.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** y byddai'r Adolygiad o'r Cwricwlwm 11-19 yn Sir Gaerfyrddin yn cael ei gymeradwyo i gael ei ystyried gan y Bwrdd Gweithredol.

## 7. ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB CYFALAF A REFENIW 2015/16

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i adroddiad a oedd yn nodi'r sefyllfa ariannol ar ddiwedd y flwyddyn ar gyfer y gwariant refeniw a chyfalaf mewn perthynas â chylch gwaith y Pwyllgor Craffu Addysg a Phlant, ym mlwyddyn ariannol 2015/16. Hysbyswyd y Pwyllgor mai hon oedd y sefyllfa derfynol ar ddiwedd y flwyddyn ac nid y sefyllfa ariannol 'wirioneddol bron â bod' fel a oedd wedi'i nodi ar glawr yr adroddiad. Nododd y Pwyllgor fod gorwariant net o £735,000 am y flwyddyn yng nghyllideb refeniw'r Adran Addysg a Phlant tra bo'r rhaglen gyfalaf yn dangos amrywiant o
-£6,154,000 o'i gymharu â'r gyllideb a gymeradwywyd ar gyfer 2015/16. Hefyd, nid oedd cronfeydd wrth gefn adrannol ar gael ar gyfer blwyddyn 2016/17.

Trafodwyd y materion canlynol wrth ystyried yr adroddiad:

Mynegodd yr Aelodau bryder ynghylch y costau a oedd yn gysylltiedig ag ymddeoliadau gwirfoddol cynnar a cholli swyddi mewn ysgolion a chan fod y rhain yn debygol o barhau a chynyddu, gofynnwyd a oedd yr Adran yn gallu rhagweld beth oedd yr effaith ariannol yn debygol o fod dros y deuddeg mis nesaf ac a oedd deialog yn digwydd rhwng yr Awdurdod ac ysgolion am y mater hwn. Dywedodd Cyfrifydd y Grŵp, yn seiliedig ar yr achosion busnes a oedd eisoes

wedi dod i law, fod yr Adran yn rhagweld gorwariant o oddeutu £500,000 ar gyfer 2016/17. Hysbyswyd y Pwyllgor fod newidiadau i'r broses yn cael eu gwneud er mwyn sicrhau bod y system yn gliriach a bod yr Awdurdod yn gweithio gydag ysgolion o'r dechrau un i gynllunio ceisiadau am ymddeoliad a defnyddio cyfleoedd adleoli ar gyfer staff sy'n wynebu colli swyddi.

Yng ngoleuni'r pwysau ariannol parhaus a wynebir gan ysgolion, awgrymodd y Cadeirydd y dylid gofyn i'r Bwrdd Gweithredol ystyried dyrannu mwy o gyllid i'r Adran Addysg a Phlant i helpu i leddfu'r pwysau ariannol a brofir ar hyn o bryd. Roedd y Pwyllgor yn cytuno â'r cynnig.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

7.1 Y byddai'r adroddiad yn cael ei dderbyn.

7.2 Y dylid gofyn i'r Bwrdd Gweithredol ystyried dyrannu mwy o gyllid i'r Adran Addysg a Phlant i helpu i leddfu'r pwysau ariannol a brofir ar hyn o bryd.

## 8. CYNLLLUN STRATEGOL Y GYMRAEG MEWN ADDYSG – YMATEB YMGYNGHORIAD 2016/17

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i ddiweddariad 2015 o'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP) a gymeradwywyd yn wreiddiol gan Lywodraeth Cymru ym mis Medi 2014. Atgoffwyd y Pwyllgor ei bod yn ofynnol i awdurdodau lleol baratoi a chyflwyno Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP) i gael ei gymeradwyo neu ei addasu gan Weinidogion Cymru ac y dylid adolygu'r rhain yn flynyddol. Nododd yr Aelodau nad oedd unrhyw newidiadau wedi bod i'r saith deilliant gwreiddiol heblaw am integreiddio anghenion yr economi leol fel rhan o'r Cynllun.

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor, o ran cydymffurfio â'r gofyniad yn Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ac Asesu'r Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg (Cymru) 2013 i adolygu ei Gynllun yn flynyddol (h.y. adolygiad o'r cynnydd wrth fynd ar drywydd y targedau a nodir yn y Cynllun), bod peth dryswch wedi bod mewn perthynas â'r gofyniad i ymgynghori ynghylch y fersiwn ddiwygiedig o'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Roedd swyddogion Llywodraeth Cymru wedi rhoi gwybod yn ddiweddarach ei bod yn ofynnol ymgynghori ynghylch y fersiwn ddiwygiedig o'r Cynllun hefyd ac felly fe gynhaliodd yr Awdurdod gyfnod ymgynghori rhwng 29 Mawrth a 12 Mai 2016. Cafwyd cyfanswm o 16 o ymatebion ac roedd dadansoddiad wedi'i gynnwys yn yr adroddiad a oedd wedi'i atodi.

Trafodwyd y materion canlynol wrth ystyried y Cynllun diwygiedig:

Roedd y cynnydd tuag at gyrraedd y targedau a oedd wedi'u nodi yn y Cynllun gwreiddiol yn cael ei groesawu ond yng ngoleuni'r llu o dargedau heriol a'r graddfeydd amser tynn, gofynnwyd faint o gynnydd pellach ellid ei gyflawni. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant ei fod yn croesawu'r sylw a'i fod yn cydnabod bod y targedau yn heriol yn wir a bod ffactorau eraill yn aml yn dylanwadu arnynt. Er enghraifft, roedd newid categorïau iaith ysgolion yn golygu ei bod yn ofynnol i'r Awdurdod ymlynu wrth brosesau statudol ac roedd y rhain yn aml yn digwydd dros gyfnod hwy. Ychwanegodd hefyd fod 10 ysgol â dwy

ffrwd yn Sir Gaerfyrddin a nid 6 fel a oedd wedi'i nodi yn y Cynllun Gweithredu (Adran 2).

Awgrymwyd fod cynnydd gyda Chynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ledled Cymru wedi bod yn weddol siomedig ar y cyfan ac y gallai'r gofyniad ar gyfer strategaeth arall a fformat y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg fod wedi cyfrannu at yr ymateb araf gan awdurdodau lleol eraill o ran datblygu eu cynlluniau eu hunain. Cynigiwyd fod yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol (Addysg a Phlant) yn lobïo Llywodraeth Cymru a oedd newydd ei sefydlu ac yn gofyn am ymgorffori Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn strategaethau corfforaethol presennol awdurdodau lleol, yn hytrach na'u bod yn cael eu hystyried yn ddogfennau ar wahân. Roedd y Pwyllgor yn cytuno â'r cynnig hwn.

Cyfeiriwyd at Ganolfannau Iaith yr Awdurdod a'r ffaith bod pennaeth ysgol, yn ystod ymweliadau'r Pwyllgor ag ysgolion yn gynharach yr wythnos honno, wedi awgrymu wrth Aelodau nad oedd y gwasanaeth hwn yn ddigonol i gefnogi dysgwyr. Awgrymwyd hefyd y dylai'r prosiect gorsafoedd iaith sicrhau nid dim ond bod hanes Cymru'n cael ei addysgu ond bod dysgwyr yn cael eu haddysgu hefyd am y frwydr yr oedd y Gymraeg wedi'i hwynebu dros y blynyddoedd. Rhoddodd yr Ymgynghorydd Her wybod i'r Pwyllgor bod swyddogion yn parhau i ystyried modelau eraill a ddefnyddir mewn siroedd eraill trwy addasu trefn Sir Gaerfyrddin i fod yn fwy hyblyg ac addasadwy i heriau lleol. Un opsiwn cyfredol oedd annog ysgolion i weithio mewn clystyrau lleol oherwydd natur ddaearyddol y sir. Fodd bynnag, roedd costau sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth (e.e. cludiant) yn broblem a byddai mabwysiadu modelau Ceredigion / Gwynedd yn galw am fuddsoddiad sylweddol. Cadarnhaodd hefyd fod hanes y Gymraeg wedi'i gynnwys yn y prosiect gorsafoedd iaith.

Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch datblygu llyfryn i hyrwyddo manteision dwyieithrwydd, cadarnhaodd yr Ymgynghorydd Her fod y rhain wedi cael eu cyhoeddi a'u bod ar gael ar wefan y Cyngor Sir.

Cyfeiriwyd at Weithgor y Cyfrifiad a oedd wedi argymell bod 'y Cyngor Sir yn sicrhau bod ysgolion cynradd Cymraeg yn rhan o deulu o ysgolion uwchradd a allai ddarparu continwwm ieithyddol priodol o'r sector cynradd i CA3 a CA4'. Fodd bynnag, awgrymwyd nad oedd hyn yn bosibl o hyd i rai disgyblion sy'n gadael ysgolion cynradd Cymraeg ac yn symud i ysgolion uwchradd yn ardal Llanelli. Nododd yr Ymgynghorydd Her fod y Cynllun yn 'disgwyl' yn hytrach nag yn 'mynnu' bod ysgolion uwchradd yn cynnig y ddarpariaeth hon. Roedd hyn wedi bod yn her ac yn dilyn gostyngiad cychwynnol yn nifer y disgyblion sy'n mynd i mewn i ffrydiau Cymraeg, roedd y nifer hwn wedi cael ei gynyddu unwaith eto. Mewn ymateb i sylw pellach, rhoddodd yr Ymgynghorydd Her wybod i'r Pwyllgor bod cryn dipyn o waith wedi cael ei wneud gyda disgyblion a rhieni a bod y Siarter Iaith i Ysgolion wedi bod yn arbennig o lwyddiannus a bod gweithgareddau sy'n gysylltiedig â hon yn boblogaidd ymhlith plant o oedran iau.

Gofynnwyd a allai ysgolion â lleoedd gwag newid eu categorïau oedran i 3-11 o 4-11 er mwyn rhoi hwb i'r niferoedd. Datganodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant y byddai swyddogion yn croesawu hyn ond nad oedd yn bosibl ym mhob ysgol yn anffodus, gyda cyfyngiadau o ran adeiladau a chyfyngiadau ariannol yn cael eu henwi fel y ddau brif rwystr. Roedd yr ysgolion yr oedd eu categorïau oedran yn cael eu newid ar hyn o bryd wedi'u lleoli mewn ardaloedd a oedd yn derbyn rhaglenni cenedlaethol megis Dechrau'n Deg.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

8.1 Y dylai'r fersiwn ddiwygiedig o Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin gael ei chymeradwyo i gael ei hystyried gan y Bwrdd Gweithredol.

8.2 Y dylid gofyn i'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol (Addysg a Phlant) lobïo Llywodraeth Cymru a gofyn am ymgorffori Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn strategaethau corfforaethol presennol awdurdodau lleol, yn hytrach na'u bod yn cael eu hystyried yn ddogfennau ar wahân.

## 9. Y RHAGLEN MODERNEIDDIO ADDYSG - BWRIAD I NEWID CATEGORI IAITH YSGOL BRO MYRDDIN O DDWYIEITHOG (2A) I'R GYFRWNG GYMRAEG (CC)

*Roedd y Cynghorydd P. Hughes-Griffiths wedi datgan yn flaenorol ei fod yn llywodraethwr yn Ysgol Bro Myrddin ac er y gallai gymryd rhan a phleidleisio, na fyddai'n cyfrannu i'r trafodaethau tra bo'r eitem hon yn cael ei hystyried.*

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r cynnig i newid categori iaith Ysgol Bro Myrddin o 'Dwyieithog' (2A) i 'Cyfrwng Cymraeg' (CC) yn dilyn cymeradwyaeth y Cyngor Sir ym mis Mawrth 2016, i gyhoeddi'r Hysbysiad Statudol. Roedd yr hysbysiad wedi rhoi 28 diwrnod i wrthwynebwyr anfon eu gwrthwynebiadau yn ysgrifenedig at y Cyngor. Daeth cyfnod yr Hysbysiad Statudol i ben ar 10 Mai ac roedd cyfanswm o 2 wrthwynebiad wedi dod i law.

Cafodd y materion canlynol eu trafod wrth ystyried y cynnig:

Mynegwyd siom fod y prosesau yr oedd yn ofynnol eu dilyn er mwyn galluogi ysgolion i newid eu categorïau iaith i'w gweld yn rhwystr yn hytrach nag o gymorth. Awgrymwyd fod Llywodraeth Cymru i'w gweld fel pe bai'n cefnogi egwyddor caniatáu i ysgolion symud ar hyd y continwwm iaith, ond bod ei phrosesau hi ei hun wedi'u bwriadu mewn gwirionedd i greu rhwystr i'r broses ar yr un pryd. Awgrymwyd y dylid gofyn i'r Cyngor Sir, trwy'r Bwrdd Gweithredol, lobïo Llywodraeth Cymru a gofyn iddi symleiddio'r broses sy'n ofynnol ar gyfer newid categorïau iaith ysgolion, gan felly ei gwneud yn haws i ysgolion symud ar hyd y continwwm iaith. Roedd y Pwyllgor yn cytuno â'r cynnig.

**PENDERFYNODD Y PWYLLGOR YN UNFRYDOL**:

9.1 Y dylid derbyn yr adroddiad.

9.2 Y dylid argymell wrth y Bwrdd Gweithredol ei fod yn bwrw ymlaen â'r cynnig i newid categori iaith Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin o 'Dwyieithog' (2A) i 'Cyfrwng Cymraeg' a gweithredu'r cynnig fel y nodwyd yn yr Hysbysiad Statudol, sef o 1 Medi 2016.

9.3 Y dylid gofyn i'r Bwrdd Gweithredol argymell wrth y Cyngor Sir ei fod yn lobïo Llywodraeth Cymru ac yn gofyn iddi symleiddio'r broses sy'n ofynnol ar gyfer newid categorïau iaith ysgolion, gan felly ei gwneud yn haws i ysgolion symud ar hyd y continwwm iaith a newid eu categorïau iaith i 'Cyfrwng Cymraeg'.

## 10. ADRODDIAD BLYNYDDOL (2015/16) A CHYNLLUN GWELLA (2016/17) - DRAFFT

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r adroddiad ar gynnydd yn y Flwyddyn Gyntaf gyda Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor (2015-20) yn ogystal ag Adroddiad Blynyddol y Cyngor (2015/16) a'i Gynllun Gwella (2016/17). Nododd y Pwyllgor fod adrodd yn flynyddol yn un o'r prif gyfleoedd i adolygu, monitro a myfyrio ac yn gyfle i'r Awdurdod gofnodi ei weithgarwch parhaus i gyflawni ei ddyletswyddau cyffredinol a phenodol. Nodwyd hefyd ei bod yn gyfreithiol ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi Cynllun Gwella cyn gynted â'i bod yn rhesymol ymarferol ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol (h.y. 1 Ebrill) a hefyd cyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar berfformiad yn y gorffennol erbyn diwedd mis Hydref bob blwyddyn.

**PENDERFYNODD Y PWYLLGOR YN UNFRYDOL** ei fod yn cymeradwyo'r fersiwn drafft o Adroddiad Blynyddol (2015/16) a Chynllun Gwella (2016/17) y Cyngor.

## 11. ADRODDIAD DIWEDD BLWYDDYN AR REOLI PERFFORMIAD - 1AF O EBRILL 2015 HYD AT 31AIN O FAWRTH 2016

Cafodd y Pwyllgor gopi i'w ystyried o'r Adroddiad Rheoli Perfformiad Diwedd Blwyddyn ar gyfer y gwasanaethau o fewn ei gylch gwaith, am y cyfnod o 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016. Roedd yr adroddiad yn cynnwys:

- Trosolwg o Berfformiad gan Benaethiaid Gwasanaeth
- Monitro'r Cynllun Gwella – Camau Gweithredu a Mesurau Perfformiad
- Monitro Cwynion a Chanmoliaeth

Trafodwyd y materion canlynol wrth ystyried yr adroddiad:

Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch Consortiwm ERW (Education through Regional Working), rhoddodd y Pennaeth Rhaglenni Dysgwyr wybod i'r Pwyllgor ei fod yn cael ei arolygu gan ESTYN ar hyn o bryd, fel a gafodd y tri chonsortiwm addysg arall yn Ne, Dwyrain a Gogledd Cymru.

**PENDEFYNWYD YN UNFRYDOL** y dylid derbyn yr adroddiad.

## 12. DIWEDDARAF AM WEITHREDIADAU AC ATGYFEIRIADAU'R PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A PHLANT

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i adroddiad a oedd yn manylu ar y cynnydd mewn perthynas â chamau gweithredu, ceisiadau neu atgyfeiriadau a ddeilliodd o gyfarfodydd craffu blaenorol.

**PENDEFYNWYD YN UNFRYDOL** y dylid derbyn yr adroddiad.

**LLOFNOD:** ______________________________ (Cadeirydd)

**DYDDIAD:** ______________________________